1/3/24

**Pontio Ysgol Gymraeg Gwynllyw Transition**
**Blwyddyn 5 : Year 5**

Annwyl Rhieni a Dysgwyr,

Ysgrifennwn atoch i gyflwyno ein hunain ac esbonio trefniadau pontio ar gyfer blwyddyn 5. Ysgol Gymraeg Gwynllyw yw'r unig ysgol sy'n darparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr Torfaen, Blaenau Gwent a rhan o Sir Fynwy. Ers Medi 2022, rydym yn ysgol bob oed sydd yn addysgu plant o 3 i 19 oed**.** Yn yr ysgol, mae gennym 780 o ddysgwyr ac rydym yn falch o bob un ohonynt.

Gweledigaeth Ysgol Gymraeg Gwynllyw yw bod yn ysgol gymunedol gynhwysol sydd yn magu dysgwyr uchelgeisiol wrth anelu at ragoriaeth. Parch a gofal yw sail holl waith ein cymuned. Rydyn ni'n credu bod pob dysgwr yn gallu cyrraedd eu llawn botensial ac yn gallu llwyddo.

Mae pontio yn gam bwysig i chi fel teuluoedd ac i ni. Yn yr ysgol, mae gennym dîm pontio. Mae Mrs Rh Dickenson, Mr R Davies a Mrs A Davies yn gyfrifol am gydweithio'n gyson gyda'r ysgolion cynradd er mwyn sicrhau y bydd eich plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn hyderus ar ddechrau blwyddyn 7.

Yn ystod y flwyddyn eleni a blwyddyn nesaf, bydd amrywiaeth o weithgareddau yn digwydd er mwyn eich galluogi i ddod yn gyfarwydd â'r ysgol.  Ar ben yr amserlen isod, mae pontio uwch ar gyfer dysgwyr sydd angen ac rydym yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd i adnabod y dysgwyr sydd angen darpariaeth bellach. Byddwn yn rhannu gwybodaeth pellach ynglŷn â threfniadau blwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd newydd.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 20 Mawrth 2024 | Ymweliad â'r Ysgol i weld sioe gyda'r cwmni theatr 'Mewn Cymeriad'. |
| 17/18 Mehefin 2024 | Diwrnod blasu gydag amrywiaeth o weithgareddau anwytho.<br>17.6 Bryn Onnen / Cwmbran / Y Fenni 18.6 Panteg/Bro Helyg |
| 27 Mehefin 2024 | Noson Agored<br>Cyfarfod pontio gyda theuluoedd |

Bydd ein noson agored yn digwydd ar y 27ain o Fehefin 2024. Bydd hwn yn gyfle i chi fel rhieni / gwarcheidwaid ymweld â'r ysgol gyda'ch plant i gyfarfod gyda'r tîm pontio a'r tîm arwain. Yn ogystal byddwch yn cael cyfle i glywed mwy am yr ysgol a'n gweledigaeth a gofyn cwestiynau. Ddaw wybodaeth pellach am hyn maes o law.

Edrychwn ymlaen at groesawu blwyddyn 5 atom dros y misoedd nesaf.

Ysgol Gymraeg Gwynllyw, Heol y Ffoledd, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD
01495 750405 www.gwynllyw.cymru yggswyddfa@gwynllyw.cymru

Dear Parents and Learners,

We are writing to you to introduce ourselves and explain our transition plans for Year 5. Ysgol Gymraeg Gwynllyw is the only school that provides Welsh medium secondary education for the learners of Torfaen, Blaenau Gwent and part of Monmouthshire. Since September 2022, we are an all-age school educating children from aged 3 to 19. In the school, we have 750 learners and we are proud of each and every one of them.

The vision of Ysgol Gymraeg Gwynllyw is to be an inclusive community school which nurtures ambitious learners, aiming for excellence. Respect and care are the foundations of our community. We believe that every learner can reach their full potential and succeed.

Transition to secondary school is an important step for you as families and for us as a school. In the school, we have a transition team. Mrs Rh Dickenson, Mr R Davies and Mrs A Davies are responsible for working closely with the primary schools to ensure that your children transfer to Ysgol Gymraeg Gwynllyw confidently at the start of year 7.

During this year and next year, there will be a range of activities happening in order to help you to become more familiar with the school. As well as the timetable below, there is enhanced transition available for those learners who may need it. We work closely with the primary school to identify learners who may need additional provision. We will share further information with you regarding year 6 in the new academic year.

| Date | Activity |
|---|---|
| 20 March 2024 | Taster day with a range of lessons |
| 17/18 June 2024 | Taster day with a range of induction activities<br>17.6 Bryn Onnen/ Cwmbran / Y Fenni 18.6 Panteg / Bro Helyg |
| 27 June 2024 | Open Evening<br>Transition meeting for families |

Our open evening will take place on the 27th June, this will be an opportunity for you as parents / guardians to visit the school with your children as well as a meeting with the transition staff and senior leadership team where you will have the opportunity to hear more about the school and our vision and ask questions.

We look forward to welcoming year 5 to the school in the coming weeks.

Yours faithfully,

Mrs Rh Dickenson
Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Headteacher

Mr R Davies
Cydlynydd Pontio
Transition Coordinator

Mrs A Davies
CADY
ALNCo